*Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd*

*Gwynedd a MôN*

*Rhif Adnabod:. 2676 / Cynghorydd John Brynmor Hughes / Map 190*

Yn gyntaf hoffwn ddatgan fy mhryder fod swyddogion y Cyngor ond wedi cyfeirio at Fap 190 Llanengan, pan mae fy ngwrthwynebiad yn cynnwys Llangian a Sarn Bach.

1 Llanengan yw enw'r Cyngor Cymuned sy'n cynnwys Llanengan, Abersoch, Bwlch Tocyn, Sarn Bach, Cilan Llanengan a Mynytho.

2 Fi yw'r Cynghorydd Cymuned dros ward Llanengan sy'n cynnwys Sarn Bach a Llangian yn ogystal â'r eraill a enwyd arwahan i Abersoch.

3 Mae Llanengan yn bentre Cymreig byw, gyda 26 allan o 43 o'r tai a nodwyd mewn coch ar y map yn cael eu byw ynddynt trwy'r flwyddyn, gyda nifer o deuluoedd ieuanc sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg a'r ysgol leol yn Sarn Bach.

4 Mae gan Llanengan eglwys fywiog, Canolfan Gymunedol gydag ystafell snwcer sydd hefyd yn ganolfan i Gyngor Cymuned Llanengan, Ysgol Feithrin a sefydliadau eraill.

5 Mae gan Llanengan dy tafarn, sydd ar agor trwy'r flwyddyn, canolfan i'r gymuned a lle da i gyfarfod.

6 Rhoddwyd statws pentref i Llanengan yn 2008 – pam newid rwan? Fy nealltwriaeth i yw bod gwrthwynebiad i ddatblygiad bach, i lenwi gofod, ddim rhywbeth mawr ond yn ddigon i ni gael parhad i amddiffyn ein cenedligrwydd.

Mae dau blot ar ben y pentref, wedi ei nodi ar y map, sy'n berchen i bobl ieuanc lleol sydd eisiau aros a gweithio yn yr ardal, sy'n addas ar gyfer hunain adeiladu, ond wedi eu gwrthod gan adran Gynllunio Cyngor Gwynedd. Nid oes tai ar werth yn Llanengan. Os byddai, ni fyddent yn fforddiadwy.

Mae gan Sarn Bach ysgol, un da iawn, ond dim ond 4/5 sydd yn cael eu byw ynddynt allan o 17 – mae'r gweddill yn dai gwyliau. Mae rhan fwyaf o'r plant yn dod o Abersoch a Llanengan. Nifer o dai ar werth ond ddim yn fforddiadwy. Oni ddylai fan hyn aros fel Clwstwr ac nid ei wneud yn bentref.

Mae gan Llangian siop fach ac eglwys. Naw ty sy'n cael eu byw ynddynt allan o 16. Ychydig o dai ar werth ond nid yn fforddiadwy. Fy nadl i yw gadael y tri pentref a enwir fel y maent. Mae Llanengan yn bentref. Sarn Bach yn Glwstwr ac Llangian yn Glwstwr. Mae lle i hunain adeiladu lleol yma heb ddifetha cryfder y gymuned.